

Waun Mawn Bryniau Preseli

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER/HYD: 0.6 milltir (1.0 km) 30 munud

CYMERIAD: o'r B4329 cerddwch ar hyd llwybr cefyllau/lôn fferm am 50 metr, yna cerddwch i fyny'r llethr ar hyd y trac ac ar draws y gweundir at y meini hirion. Tir anwastad a chorsiog, graddiannau gweddol ysgafn, llwybrau gydag arwynebau naturiol.

CADWCH LYGAD AM: Meini hirion cynhanesyddol a gafodd eu hadeiladu gan bobl hynafol. Efallai fod rhai o'r cerrig hyn wedi bod yn rhan o gylch mawr ac efallai eu bod yn gysylltiedig â cherrig yng Nghôr y Cewri.


GOFAL: Does dim ond dwy gilfan ar gael i barcio ac mae'r rhain yn cael eu dangos ar y map; peidiwch â pharcio mewn pyrth na llefydd pasio. Mae'r tir yn Ardal Cadwraeth Arbennig, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Heneb Gofrestredig ac wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae aflonyddu neu ddifrodi heb awdurdod yn drosedd. Parchwch y dirwedd warchodedig hon, ei harchaeoleg a'i chynefin naturiol. Cadwch gŵn ar dennyn gan fod defaid yn pori yma.

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- • • • • Llwybr wedi'i Hyrwyddo
- • • • • Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- P** Rhywfaint o le parcio mewn cilfan
- Tir Mynediad (mynediad ar droed yn unig ar draws y tir hwn)



Waun Mawn Bryniau Preseli

Teithiau Byr

Hyd: 30 munud

Pellter: 0.6 milltir (1.0 km)

Mae Waun Mawn a'r dirwedd o gwmpas yn cynnwys nifer o nodweddion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys nifer o feini hirion mawr ar wasgar dros y dirwedd. Mae'r rhain yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cynhanes ac fe'u hadeiladwyd gan bobl hynafol.

Mae'r ardal sy'n cael ei galw yn Waun Mawn yn cynnwys meini hirion gyda'r maen mwyaf gorllewinol yn agos at y trac. Ymhellach i'r dwyrain, mae'r safle'n cynnwys maen hir a hefyd rhai sydd bellach ar eu gwastad. Mae hyn yn awgrymu bod rhagor o gerrig yn arfer sefyll yn y gorffennol ac efallai eu bod wedi bod yn rhan o gylch cerrig mawr.

Mae archaeolegwyr a oedd wedi ymchwilio i'r safle'n fwy diweddar yn credu bod rhai o'r meini hirion a oedd yn ffurfio'r cylch bellach yn sefyll yng Nghôr y Cewri. Yn ôl tystiolaeth dyddio o Waun Mawn, mae'r cerrig sy'n dal ar y safle yn dyddio'n ôl cyn Côr y Cewri. O'r herwydd, mae rhai yn credu bod y cerrig a ddefnyddiwyd yn y cylch yn Waun Mawn wedi cael eu tynnu i lawr a'u cludo i Gôr y Cewri a'u defnyddio i'w adeiladu.

Er ei bod yn demtasiwn dod i'r casgliad bod hyn yn adlewyrchiad cywir o'r stori yn Waun Mawn, mae gwaith ymchwil yn parhau ar y safle.

O'r herwydd, dim ond drwy gasglu rhagor o ddata y bydd modd dod i gasgliad mwy pendant am y dehongliad hwn.

Gofal: Does dim ond dwy gilfan ar gael i barcio ac mae'r rhain yn cael eu dangos ar y map; peidiwch â pharcio mewn pyrth na llefydd pasio. Mae'r tir yn Ardal Cadwraeth Arbennig, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Heneb Gofrestredig ac wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae aflonyddu neu ddifrodi heb awdurdod yn drosedd. Parchwch y dirwedd warchodedig hon, ei harchaeoleg a'i chynefin naturiol. Cadwch gŵn ar dennyn gan fod defaid yn pori yma.



Maen hir yn rhan ddwyreiniol Waun Mawn gydag un o'r hen feini hirion ar ei wastad yn y cefndir.



Maen hir yn rhan orllewinol y safle ger y trac.